# Y Gronfa Radio Cymunedol

## Nodiadau cyfarwyddyd

Diwygiwyd 1 Medi 2025 - Fersiwn 21

# Cynnwys

## Adran


1. Cyflwyniad ....3
2. Y Gronfa Radio Cymunedol ("y Gronfa") ....4
   - Cefndir ....4
   - Beth yw diben y Gronfa? ....4
   - Beth NA fydd y Gronfa'n talu amdano? ....4
   - Am faint gallwn ni wneud cais? ....5
   - Meini prawf cymhwyso ceisiadau ....5
   - Trwyddedeion sy’n dal dwy neu fwy o drwyddedau radio cymunedol ....7
   - Gorsafoedd cymunedol yng Nghymru ....7
3. Y broses ymgeisio a dyfarnu ....9
   - Gwybodaeth ymgeisio ....9
   - Sut i wneud cais ....9
   - Llenwi'r ffurflen gais ....9
   - Penderfyniadau Grant ....11
   - Beth sy'n digwydd nesaf? ....11
   - Gwybodaeth ychwanegol ....11
   - Diogelu data ....12

# 1. Cyflwyniad

Mae’r Gronfa Radio Cymunedol yn helpu i gefnogi cynaliadwyedd a thwf gorsafoedd radio cymunedol sydd wedi’u trwyddedu gan Ofcom ac sy'n darlledu ar AM, FM neu drwy drwydded C-DSP ar amlblecs radio digidol.

**Dylai ymgeiswyr ddarllen y nodiadau cyfarwyddyd hyn yn llawn cyn gwneud cais.**

**Am y ddogfen hon**

Mae’r nodiadau cyfarwyddyd hyn ar gyfer trwyddedeion sy’n gwneud cais am y Gronfa Radio Cymunedol. Maen nhw’n cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- pwrpas y Gronfa;
- meini prawf cymhwysedd; a'r
- broses ymgeisio a dyfarnu.

# 2. Y Gronfa Radio Cymunedol ("y Gronfa")

## Cefndir

2.1 Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS") wedi gofyn i Ofcom weinyddu'r Gronfa. Am ragor o wybodaeth am Radio Cymunedol a'r Gronfa, gan gynnwys y swm a ddyrannwyd ar gyfer cyfnod penodol, ewch i'n gwefan.

2.2 Bwriad y Gronfa yw cefnogi cynaliadwyedd gorsafoedd radio cymunedol trwyddedig Ofcom, fel y nodir isod. Yn 2025/26 mae £900,000 wedi'i ddarparu gan DCMS ar gyfer ceisiadau am gyllid.

## Beth yw diben y Gronfa?

2.3 Mae'r Gronfa wedi'i sefydlu i ddyfarnu grantiau i gefnogi cynaliadwyedd gorsafoedd radio cymunedol trwyddedig Ofcom. Mae hyn yn cynnwys:

- rheoli'r orsaf
- codi arian i gefnogi'r orsaf (e.e. grantiau, cyllid masnachol)
- gweinyddu
- rheolaeth ac adrodd ariannol
- allgymorth cymunedol
- trefnu a chefnogi gwirfoddolwyr

2.4 Bydd grantiau'n cael eu talu fel un swm a rhaid eu gwario o fewn y Cyfnod Gwariant Perthnasol fel y diffinnir yn y Cytundeb Grant, sydd fel arfer yn 14 mis. Er hwylustod, byddwn yn cyfeirio at y Cyfnod Gwariant Perthnasol fel y 'cyfnod grant' yn y canllaw hwn.

## Beth NA fydd y Gronfa'n talu amdano?

2.5 Ni ellir defnyddio grantiau a ddyfernir o dan y Gronfa ar gyfer y canlynol:

- Offer/gwariant cyfalaf (ar gyfer y swyddfa, stiwdio, trosglwyddo ayb)
- Cost cerbydau
- Treuliau gwirfoddolwyr
- Costau trwsio, adeiladu neu gynnal a chadw adeiladau
- Costau rhaglenni neu farchnata
- Biliau cyfleustodau
- Taliadau rhent a/neu forgais
- Ffioedd trwydded neu ffioedd hawlfraint (fel PPL/PRS neu ffioedd meddalwedd)
- Ffioedd sy'n daladwy i Ofcom (gan gynnwys ffioedd ymgeisio a thrwyddedau, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny)
- Grantiau ôl-weithredol h.y. i dalu am wariant sydd eisoes wedi digwydd
- Costau sy'n gysylltiedig â lansio gorsaf radio
- Costau sy'n ymwneud â gwasanaethau a gyflawnir yn unol â math arall o drwydded a ddelir gan y trwyddedai, h.y. amlblecs radio digidol ar raddfa fach
- Ad-dalu benthyciadau
- Cyflogau neu gostau cyfarwyddwyr cwmni
- Costau sydd wedi'u had-dalu neu sydd i'w had-dalu drwy gyllid gan awdurdodau cyhoeddus eraill neu gan y sector preifat

- Taliadau llog (gan gynnwys taliadau ffioedd gwasanaeth am lesoedd cyllid)
- Dirwyon statudol, dirwyon troseddol neu gosbau

## Am faint gallwn ni wneud cais?

2.6 Uchafswm unrhyw grant unigol yw £100,000.

2.7 Yn ogystal, dyfernir pob grant ar sail eu bod yn gymhorthdal Cymorth Ariannol Isafswm (MFA) o dan Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022. Fel y nodir yn fanylach ym mharagraff 2.17, cyn gwneud y taliad, byddwn angen cadarnhad ysgrifenedig na fydd derbyniad y taliad yn fwy na'r trothwy MFA o £315,000 wedi'i gronni dros y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol, fel y nodir yn adran 36(1) o Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022. Felly, rhaid i chi sicrhau y bydd y swm a geisir yn eich cadw o fewn y trothwy hwnnw.

2.8 Wrth ystyried y swm i wneud cais amdano, dylai ymgeiswyr ystyried datganiadau Panel Cronfa Radio Cymunedol ar rowndiau blaenorol. Mae'r rhain yn cynnwys rhestr o grantiau blaenorol, y cyfartaledd a roddir yn y rownd benodol, a 'materion o bwys yn codi o gyfarfod y Panel'. Mae'r olaf yn cynnwys cyngor i ymgeiswyr ar yr hyn y mae Panel Cronfa Radio Cymunedol (y "Panel") yn chwilio amdano yn ogystal â phroblemau cyffredin gyda cheisiadau.

2.9 Mae'r datganiadau i'w gweld ar dudalen y Gronfa Radio Cymunedol ar ein gwefan, o dan y pennawd 'dyfarniadau grant diweddar'. Cofiwch nad yw'r datganiadau a ddarparwyd ar gyfer y tair rownd o gyllid brys yn 2020-21 yn berthnasol, gan fod diben y cyllid yn ystod y cyfnod hwn yn benodol i amgylchiadau'r cyfnod hwnnw.

2.10 Bydd angen i ymgeiswyr gyfiawnhau pam mae angen y swm y gwneir cais amdano arnyn nhw, ac esbonio beth fyddent yn ei wneud pe na baent yn cael cyfanswm y cyllid y gofynnir amdano.

## Meini prawf cymhwyso ceisiadau

2.11 Dim ond i orsafoedd radio cymunedol sydd wedi cael eu trwyddedu gan Ofcom y gellir rhoi grantiau. Nid yw gorsafoedd sydd wedi cael eu trwyddedu o dan Orchymyn Radio Cymunedol (Guernsey) 2013 yn gymwys i gael cyllid.

2.12 Mae pob gorsaf radio gymunedol sydd wedi'i thrwyddedu i ddarlledu ar AM ac FM, yn ogystal â gorsafoedd C-DSP, sydd wedi'u trwyddedu o dan Orchymyn Radio Digidol Cymunedol a Amlblecs Radio ar Raddfa Fach 2029, yn gymwys i gael grantiau o'r Gronfa.

2.13 Rhaid i orsafoedd a fydd yn elwa o unrhyw grant fod yn darlledu ar hyn o bryd ac felly ar yr awyr ar **ddyddiad eu cais** er mwyn i'r Panel ystyried cais.

2.14 Ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol analog, dylai fod o leiaf pymtheg mis ar ôl ar y drwydded o'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am grant. Os oes llai na phymtheg mis ar ôl ar y drwydded, rhaid i'r trwyddedai fod wedi cyflwyno cais am estyniad i Ofcom erbyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am grant. Nid oes gan drwyddedau C-DSP ddyddiad gorffen. Yn y naill achos neu'r llall, rydym yn disgwyl i'r gwasanaethau barhau i ddarlledu am hyd lawn cyfnod y grant os yw cais yn llwyddiannus. Gweler y Cytundeb Grant, a gyhoeddir ar wefan Ofcom ac y mae'n rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus ei lofnodi.

2.15 Dim ond yr endid sy'n dal y drwydded all gyflwyno a dyfarnu ceisiadau iddo. Rhaid talu'r grant i gyfrif banc yr endid sy'n dal y drwydded.

2.16 Fel arfer bydd dwy rownd o ddyfarniadau grant ym mhob blwyddyn ariannol, er bod Ofcom

yn cadw'r hawl i gyhoeddi'r holl gyllid mewn un rownd (neu i beidio â chynnal unrhyw rowndiau o gwbl). Fel arfer, os yw Trwyddedai wedi derbyn grant ar gyfer gorsaf benodol mewn un rownd ariannu, ni fydd yr orsaf honno'n cael ei hystyried ar gyfer grant pellach o dan rownd arall yn yr un flwyddyn ariannol. Gall y trwyddedai ar gyfer gorsaf o'r fath wneud cais yn y flwyddyn nesaf a'r blynyddoedd dilynol. Rhaid i drwyddedai sydd wedi cael grant mewn rownd ariannu flaenorol atodi gyda'u cais eu hadroddiad grant blaenorol hwnnw neu eu hadroddiad interim os ydynt yn dal i fod o fewn y cyfnod gwariant. Mae'r ffurflen adroddiad grant ar dudalen Cronfa Radio Cymunedol ein gwefan.

2.17 Gall dau neu fwy o Drwyddedai gyflwyno ceisiadau ar y cyd, er enghraifft i gyd-ariannu swydd a rennir. Fodd bynnag, dylid enwebu un Trwyddedai i reoli'r grant a bydd yn cael ei dalu i'r cwmni hwnnw (ac ni chaiff ei rannu rhwng dau neu fwy).

2.18 Dyfernir pob grant ar y sail eu bod yn gymhorthdal Cymorth Ariannol Isafswm (MFA) o dan Ddeddf Rheoli Cymhorthdaliadau 2022. Rhaid i ymgeiswyr allu darparu cadarnhad ysgrifenedig na fydd derbyn y taliad yn fwy na throthwy cyfanswm MFA yr ymgeisydd o £315,000 wedi'i gronni dros y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi gadarnhau nad ydych wedi derbyn mwy na £315,000 llai gwerth y grant y gwnaed cais amdano mewn cymorthdaliadau MFA neu fathau tebyg eraill o gymorthdaliadau (gweler adran 42(8) o Ddeddf Rheoli Cymhorthdaliadau) gan Ofcom neu unrhyw awdurdodau cyhoeddus eraill dros y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol. Gall trwyddedai bennu eu lwfans MFA cyfredol trwy ddefnyddio canllawiau'r llywodraeth ym Mhennod 7 o Ganllawiau Statudol ar gyfer Cyfundrefn Rheoli Cymhorthdaliadau'r Deyrnas Unedig i bennu ei gymhwysedd.

## Trwyddedeion sy'n dal dwy neu fwy o drwyddedau radio cymunedol

2.19 Efallai y bydd gan rai trwyddedeion drwydded radio cymunedol analog ac un neu fwy o drwyddedau C-DSP, neu fwy nag un drwydded C-DSP. Dim ond un cais y dylai'r trwyddedeion hyn ei wneud i'r Gronfa, ond dylent ddweud yn glir yn eu cais i ba drwydded(au) y mae'r cyllid yn berthnasol.

2.20 Pan fo'r cais yn ymwneud â mwy nag un gwasanaeth radio cymunedol a ddarperir o dan drwyddedau lluosog a ddelir gan yr un trwyddedai:

Yn ei gais, dylai'r trwyddedai fod yn glir iawn ynghylch sut y byddai grant yn cael ei ddefnyddio ar draws y trwyddedau y mae'n eu dal. Er enghraifft, pe bai cais am grant i gefnogi rôl codi arian ar draws trwydded radio cymunedol analog a thrwydded C-DSP, dylai'r ymgeisydd egluro yn y cais y manteision a fyddai'n cael eu cynnig ar draws y ddau wasanaeth trwyddedig, a sut byddai'r rôl yn cefnogi'r ddau wasanaeth yn effeithiol; a

byddai angen i'r adroddiadau gorfodol y mae'n rhaid i drwyddedai eu cyflwyno yn ystod ac ar ôl y cyfnod grant ddangos tystiolaeth bod y grant wedi'i rannu ar draws y trwyddedau a ddelir gan y trwyddedai, yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd ar adeg y cais.

2.21 Dim ond at ddiben talu costau y dyfarnwyd y grant hwnnw ar eu cyfer y gellir defnyddio grant, fel y nodir yn y Cytundeb Grant, ac ni ellir ei ddefnyddio at unrhyw ddibenion eraill gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau a lansiwyd yn ystod cyfnod y grant.

2.22 Yn benodol, mae'n bwysig nodi na ellir defnyddio cyllid i gefnogi lansio gwasanaeth C-DSP newydd hyd yn oed pan fo gan yr ymgeisydd drwydded C-DSP eisoes ar gyfer y gwasanaeth hwnnw. Mae hyn yn dal yn wir hyd yn oed pan fyddai dim ond rhan o'r cyllid yn cael ei ddefnyddio at y diben hwn.

2.23 Os yw trwyddedai yn cyd-ddarlledu ei wasanaeth radio cymunedol gan ddefnyddio trwydded DSP, rhaid i'r grant fod yn berthnasol i'w drwydded radio cymunedol analog neu ddigidol er mwyn i'r trwyddedai fod yn gymwys i wneud cais i'r Gronfa. Ni fydd ceisiadau sy'n ymwneud â thrwyddedau DSP nad ydynt yn drwyddedau C-DSP yn gymwys.

2.24 Os oes gennych chi gwestiynau penodol am y cyfyngiadau sy'n berthnasol i drwyddedeion sydd â dwy neu fwy o drwyddedau radio cymunedol, mae'n bwysig eich bod yn gofyn am eglurhad gan dîm y Gronfa Radio Cymunedol cyn i chi gyflwyno'ch cais, cyn y dyddiad cau, drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir isod.

## Gorsafoedd cymunedol yng Nghymru

2.25 Yn unol â'r Hysbysiad Cydymffurfio a wnaed o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, pan fydd Ofcom yn gwneud penderfyniadau am ddyfarnu grant, rhaid iddo hefyd ystyried y canlynol:

a) Pa effeithiau, os o gwbl (ac a fydden nhw'n gadarnhaol ynteu'n negyddol), y byddai dyfarnu'r grant yn eu cael ar:

   i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a

   ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

b) sut byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud neu ei weithredu (er enghraifft, drwy osod amodau grant) er mwyn iddo gael effeithiau cadarnhaol, neu ragor o effeithiau cadarnhaol,

ar:

i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg; a

ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; a

c) sut byddai’r penderfyniad yn cael ei wneud neu ei weithredu (er enghraifft, drwy osod amodau grant) er mwyn iddo beidio â chael effeithiau niweidiol, neu gael llai o effeithiau niweidiol ar:

i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg; a

ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

2.26 Yn unol â hynny, er mwyn helpu’r Panel i ystyried ceisiadau, gofynnir i unrhyw ymgeiswyr ar ran gorsafoedd yng Nghymru ddarparu gwybodaeth yn eu cais am effeithiau grant ar y Gymraeg, fel y nodir uchod.

2.27 Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg. Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn ddim llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

# 3. Y broses ymgeisio a dyfarnu

## Gwybodaeth ymgeisio

3.1 **Cyhoeddir y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau ym mhob rownd ariannu ar wefan Ofcom.**

3.2 Ni fydd ceisiadau a dogfennau ategol a fydd yn cyrraedd ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried gan y Panel (yn amodol ar baragraff 3.15 y cyfarwyddyd hwn).

## Sut i wneud cais

3.3 Lawrlwythwch y ffurflen gais o wefan Ofcom. Gallwch wneud cais yn Gymraeg neu yn Saesneg ac mae ffurflenni cais yn y ddwy iaith ar gael ar y wefan. Dylai ceisiadau wedi'u cwblhau ac unrhyw ddogfennau ategol priodol gyrraedd Ofcom erbyn 5pm ar y dyddiad cau a hysbysebir.

3.4 Rydym yn argymell eich bod yn cyflwyno eich cais drwy e-bost i communityradiofund@ofcom.org.uk. Dylai'r ffurflen gais a'r dogfennau ategol fod ar ffurf Word, RTF neu Excel, yn hytrach na PDF. Ni allwn dderbyn negeseuon e-bost gydag atodiadau html ac ni fydd unrhyw negeseuon e-bost gyda ffeiliau html yn cael eu derbyn gennym. Ni all ein system e-bost dderbyn negeseuon e-bost gydag atodiadau sy'n fwy na 10 Megabeit, felly os yw'r cais a'r dogfennau ategol yn fwy na'r maint hwn, dylid anfon unrhyw ddogfennau ategol mewn e-bost ar wahân., pob un ohonynt o dan 10Mbs. Cysylltwch â'r tîm cyn diwrnod y dyddiad cau os oes gennych unrhyw broblemau.

3.5 Os oes rheswm cymhellol pam na all yr ymgeisydd gyflwyno'r ffurflen gais a/neu'r dogfennau ategol drwy e-bost, rhaid i chi gysylltu ag Ofcom o leiaf wythnos ymlaen llaw cyn dymuno cyflwyno'r cais i drafod hyn ac o leiaf wythnos cyn unrhyw ddyddiad cau.

3.6 I gysylltu â thîm y Gronfa Radio Cymunedol, ffoniwch: 0207 981 3002, neu e-bostiwch: communityradiofund@ofcom.org.uk. Os byddwch yn cysylltu â ni dros y ffôn, bydd angen i chi adael neges llais a bydd rhywun yn eich ffonio'n ôl.

## Llenwi'r ffurflen gais

3.7 Mae'r Panel yn dibynnu ar y ffurflen gais er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant. Felly mae'n bwysig bod y ffurflen gais yn ddigon manwl fel y gall y Panel ddeall yr orsaf a'r rhesymau pam mae ymgeisydd yn ceisio grant. Yn yr adran hon, rydym yn darparu rhywfaint o ganllawiau ychwanegol ynghylch sut y dylech gwblhau'r gwahanol adrannau yn y ffurflen gais.

3.8 Dylech ddarparu eich manylion cyswllt ar dudalen flaen y ffurflen. Er mwyn sicrhau bod rhywun sydd â'r awdurdod priodol yn derbyn y Cytundeb Grant i'w lofnodi, gofynnwn am wybodaeth am gyfarwyddwr neu ysgrifennydd cwmni neu yn achos unrhyw sefydliad arall y person perthnasol ag awdurdod, ar dudalen flaen y ffurflen gais.

3.9 Mae cwestiynau 3.1-3.3 o'r ffurflen gais yn gofyn am enw eich cwmni a rhif eich cwmni (fel y'u ceir ar Dŷ'r Cwmnïau), lle bo hynny'n berthnasol, a rhif y drwydded, enw a lleoliad yr orsaf(oedd) yr hoffech iddynt elwa o'r grant, os caiff ei ddyfarnu. Dylech nodi cyfanswm y grant yr ydych yn gwneud cais amdano yng nghwestiwn 3.4.

3.10 Wrth ateb cwestiwn 3.5, nodwch bwrpas ac amcanion pob gorsaf yr hoffech iddi elwa o'r grant. Mae'r Panel eisiau ddeall beth rydych chi'n ei wneud, pwy rydych chi'n ei wasanaethu, beth rydych chi wedi'i gyflawni hyd yn hyn a beth rydych chi'n ceisio'i gyflawni yn eich cymuned.

3.11 Byddwch yn glir ac yn gryno ynglŷn â'r hyn y defnyddir y cyllid ar ei gyfer yng nghwestiwn 3.6-3.8. Os ydych chi'n gwneud cais am grant at fwy nag un diben neu orsaf, gwnewch yn siŵr eich bod yn glir ynghylch pa ddiben a/neu orsaf y mae eich atebion yn ymwneud â hi. Rhowch wybodaeth am bwrpas ac amcanion y grant, a'r amserlen ar gyfer gwario'r grant. Os yw'r cyllid a geisir ar gyfer staff, dylid darparu disgrifiad(au) swydd a dadansoddiad ariannol rhwng cyflog a chostau'r cyflogwr (fel yswiriant gwladol y cyflogwr, pensiwn a ffi reoli). Defnyddir y cwestiynau hyn i ddiffinio pwrpas y grant fel y nodir yn y Cytundeb Grant.

3.12 Dylai ymgeiswyr ddarparu manylion unrhyw newidiadau sylweddol gwirioneddol neu ddisgwyliedig yn amgylchiadau'r orsaf, megis newidiadau i sefyllfa ariannol yr orsaf nad ydynt o bosibl yn amlwg yn y cyfrifon cyhoeddedig diweddaraf.

3.13 Gellir cyflwyno cais at fwy nag un diben (dylid cynnwys manylion ar yr un ffurflen). Os nodir mwy nag un diben grant, dylai ymgeiswyr nodi blaenoriaeth pob un trwy eu rhestru yn nhrefn eu pwysigrwydd. Gall y Panel roi grant i ymgeisydd i ariannu mwy nag un diben, ond mae'r flaenoriaeth gymharol y mae'r Panel yn ei rhoi i unrhyw ddiben yn ôl disgresiwn llwyr y Panel.

3.14 Mae angen gwybodaeth am gyllideb a chyllid yr orsaf arnom hefyd i ddeall anghenion yr ymgeisydd. Ar gyfer gorsafoedd sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, darparwch yr wybodaeth ychwanegol a nodir uchod ynghylch effeithiau grant ar y Gymraeg.

3.15 Wrth ystyried y ceisiadau a gyflwynir, gellir darparu i'r Panel hanes cydymffurfio Trwyddedeion sy'n gwneud cais am gyllid a'i ystyried, o ran ei gydymffurfiaeth ag amodau'r drwydded a chydymffurfiaeth â chytundebau grant blaenorol Ofcom. O'r herwydd, mae cwestiwn 3.14 o'r ffurflen gais yn rhoi cyfle i'r Trwyddedai ddarparu unrhyw sylw a allai fod ganddo ynghylch ei hanes o gydymffurfiaeth ag amodau ei drwydded(au) darlledu a thelegraffeg ddiwifr, yn ogystal â'i gydymffurfiaeth ag unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth grantiau blaenorol o Gronfa Radio Cymunedol.

3.16 Dim ond y canlynol y gall gwybodaeth ychwanegol a gyflwynir cynnwys: disgrifiadau swydd, manylebau person, cynllun gwaith, cyllideb weithredu, cyfrifon cwmni (neu gyfwerth), neu adroddiad grant.

3.17 Os oes gennym unrhyw ymholiadau am yr wybodaeth a dderbyniwyd, efallai y byddwn yn gofyn i'r ymgeisydd am eglurhad. Ni ellir cyflwyno unrhyw wybodaeth newydd ar ôl y dyddiad cau heblaw am yr hyn a ofynnwyd amdano gan Ofcom (ac eithrio newid ym manylion cyswllt yr ymgeisydd).

3.18 Bydd ceisiadau i'r Gronfa yn cael eu trin yn gyfrinachol ac ni chânt eu cyhoeddi fel arfer. Os bydd gofyniad cyfreithiol arnom i gyhoeddi unrhyw wybodaeth, neu os byddwn yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni ein swyddogaethau, byddwn fel arfer yn esbonio ein bwriad i ddatgelu'r wybodaeth yn gyntaf (gan gynnwys y cyd-destun yr ydym yn bwriadu ei datgelu ynddo) ac yn rhoi cyfle i chi wneud sylwadau am y datgeliad arfaethedig.

3.19 Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni dros y ffôn: 0207 981 3002, neu e-bostiwch: communityradiofund@ofcom.org.uk. Os byddwch yn cysylltu â ni dros y ffôn, bydd angen i chi adael neges llais a bydd rhywun yn eich ffonio'n ôl i drafod eich cwestiwn.

## Penderfyniadau Grant

3.20 Bydd Panel Cronfa Radio Cymunedol Ofcom yn ystyried yr holl geisiadau a fydd yn gwneud y penderfyniad ynghylch a ddylid dyfarnu grant i ymgeisydd a faint i'w ddyfarnu. Mae penderfyniadau'r Panel yn derfynol. Mae rhagor o wybodaeth am y Panel ar ein gwefan.

3.21 Byddwn yn hysbysu ymgeiswyr o ganlyniad y rownd dyfarnu ceisiadau. Anfonir hysbysiad at y cyswllt a enwir ar y ffurflen gais. Cyhoeddir adborth cyffredinol ar y rhesymau pam nad oedd ceisiadau'n llwyddiannus mewn datganiad am y dyfarniadau.

3.22 Bydd penderfyniadau ar ddyfarniadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan Ofcom. Cyhoeddir derbynnydd y grant, swm y dyfarniad a diben y grant.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

3.23 Mae grant yn amodol ar ymgeisydd llwyddiannus yn llofnodi Cytundeb Grant Cronfa Radio Cymunedol ("Cytundeb Grant") a fydd yn cael eu hanfon **trwy e-bost** (neu ddulliau eraill y cytunwyd arnynt gyda'r ymgeisydd) at yr ymgeisydd llwyddiannus. Fel y nodir ymhellach uchod, bydd gofyn i ymgeisydd llwyddiannus hefyd gwblhau datganiad yn cadarnhau na fydd derbyn grant gan Gronfa Radio Cymunedol yn achosi i'r sefydliad ragori ar y trothwy MFA o £315,000, wedi'i gyfrifo dros y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol. Darperir datganiad templed gyda'r Cytundeb Grant. Fel rhan o'r broses hon, gofynnir am fanylion banc hefyd. (Byddwn yn trafod gyda'r ymgeiswyr post sut i ddelio â hyn). Wrth ymrwymo i'r Cytundeb Grant, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cadarnhau ei fod yn derbyn y grant ar y sail y bydd at y diben a ddisgrifir yn yr Atodiad i'r Cytundeb Grant, ac yn unol â'r holl amodau a nodir yn y Cytundeb Grant. I gael gwybodaeth am gyfrifoldebau a thelerau eraill y grant, gweler y Cytundeb Grant templed, sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan Ofcom.

3.24 Fel arfer rydym yn defnyddio Adobe Sign i lofnodi'r Cytundeb Grant, sydd ond angen porwr gwe a chyfeiriad e-bost. Bydd cyfarwyddiadau ar sut y bydd hyn yn gweithio wedi'u nodi yn yr e-bost sy'n hysbysu ymgeiswyr llwyddiannus o ganlyniad y rownd dyfarnu ceisiadau.

3.25 Ar ôl dychwelyd y Cytundeb Grant , y datganiad a'r ffurflen manylion banc wedi'u cwblhau i'r Tîm, gwneir trefniadau i drosglwyddo'r grant drwy BACS i gyfrif banc enwebedig derbynnydd y grant.

3.26 Rhaid i Ofcom dalu grantiau i dderbynnydd y grant yn y flwyddyn ariannol y gwneir y dyfarniad ynddi a rhaid i dderbynnydd y grant ei wario o fewn amser penodol (a nodir ym mhob Cytundeb Grant unigol).

3.27 Bydd yn ofynnol i dderbynwyr grantiau, fel amod o'r Cytundeb Grant, adrodd ar sut y cafodd ei wario hanner ffordd drwy gyfnod y grant ac ar ôl i gyfnod y grant ddod i ben. Mae darparu'r adroddiadau hyn yn amod pwysig o'r Cytundeb Grant.

3.28 Os nad yw grant wedi'i wario yn unol â'r diben penodedig, neu os nad yw derbynnydd grant wedi cydymffurfio â'r Cytundeb Grant fel arall, gan gynnwys y gofyniad i ddarparu adroddiadau i Ofcom fel y nodir uchod, gall Ofcom fynnu ad-daliad y grant ac ni fydd fel arfer yn ystyried rhoi grant pellach i'r derbynnydd hwnnw. Ni chaniateir newidiadau i ddiben y grant ar ôl i'r Cytundeb Grant gael ei lofnodi.

## Gwybodaeth ychwanegol

3.29 Mae Ofcom yn disgwyl i dderbynwyr grantiau roi gwybod i'w cymuned am weithgareddau a gefnogir gan y Gronfa, e.e. drwy gyhoeddi datganiad ar eu gwefan neu drwy gyhoeddiadau ar yr awyr.

3.30 Gall diben a chwmpas grantiau gan y Gronfa amrywio o flwyddyn i flwyddyn a gellir amrywio'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn unol â hynny. Mae'n bosib y bydd y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn newid yn y dyfodol. Cynghorir ymgeiswyr i wirio gwefan Ofcom am y fersiynau diweddaraf o'r Nodiadau Cyfarwyddyd a'r ffurflen gais.

## Diogelu data

3.31 Mae arnom angen yr wybodaeth y gofynnir amdani yn y ffurflen hon er mwyn cyflawni ein dyletswyddau trwyddedu o dan Ddeddf Darlledu 1990, Deddf Darlledu 1996 a Deddf Cyfathrebiadau 2003. Gweler Datganiad Preifatrwydd Cyffredinol Ofcom i gael rhagor o wybodaeth am sut mae Ofcom yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol a'ch hawliau cyfatebol.